YOUTH OFFENDING TEAM Inspection

Datganiad i'r Wasg

Ffôn: Ymholiadau'r cyfryngau: 020 7210 8643
Arolygiaeth Prawf EM • Second Floor • Ashley House • 2 Monck Street • London • SW1P 2BQ
Ffôn: 020 7035 2202 • Ffacs: 020 7035 2237
E-bost: HMIP.enquiries@homeoffice.gsi.gov.uk • http://inspectorates.justice.gov.uk/hmiprobation/

Arolygiad annibynnol o waith prawf a throseddau ieuenctid

DAN EMBARGO NES 05/03/08
CYHOEDDI ADRODDIAD AROLYGU
TÎM TROSEDDAU IEUENCTID PEN-Y-BONT AR OGWR

Heddiw, cyhoeddwyd yr adroddiad diweddaraf o bedwerydd cam yr arolygiadau o Dimau Troseddau Ieuenctid (TTI) yng Nghymru a Lloegr. Cynhaliodd tîm arolygu amlasiantaethol yr arolygiad o Dîm Troseddau Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr.

Dywedodd Andrew Bridges, Prif Arolygydd Prawf EM:

"Roeddem yn falch o weld tîm Troseddau Ieuenctid sy'n cyfrannu'n effeithiol at fframwaith strategol ehangach gwasanaethau plant yn yr ardal trwy bartneriaethau sydd wedi'u datblygu'n dda. Mae cryfderau penodol yn cynnwys ei waith gyda phlant a phobl ifanc sy'n wynebu risg o droseddu ac wrth sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc. Mae enghreifftiau o ychydig o arfer arloesol, yn enwedig o ran yr adnoddau addysg sydd ar gael.

Fodd bynnag, mae angen gwella'r gwaith mewn llysoedd a chyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu, yn enwedig wrth reoli'r Risg o Niwed i eraill. Rydym hefyd yn pryderu am y bwlch sylweddol mewn adnoddau ar gyfer darpariaeth gwneud iawn a'r canolbwyntio annigonol ar ymwybyddiaeth am ddioddefwyr. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys nifer o argymhellion ar gyfer gwella ac mae'r gwasanaeth mewn sefyllfa dda i barhau i adeiladu ar ei arfer presennol.

Dyma brif ganfyddiadau'r adroddiad:

Rheolaeth
Cafwyd ffocws cryf ar weithio mewn partneriaeth ac roedd y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid wedi'i integreiddio'n dda i gynlluniau gwasanaethau eraill a oedd yn darparu ar gyfer anghenion plant a phobl ifanc yn yr ardal, ac roedd staff yn y Tîm Troseddau Ieuenctid wedi'u goruchwylio a'u hyfforddi'n dda.

Gwaith yn y llysoedd
Roedd cysylltiadau ar bob lefel â'r llysoedd yn gadarnhaol iawn ac roedd cynlluniau cefnogi mechnïaeth effeithiol a chynlluniau priodol i oedolion ar gael. Roedd angen i awduron adroddiadau cyn-dedfrydu ddatblygu dealltwriaeth gliriach o'r gwahaniaethau mewn asesu risg o hunan-niweidio, bod yn agored i niwed, tebygolrwydd o aildroseddu a'r risg o niwed i bobl eraill.

Gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned
Drwy waith da mewn partneriaeth, roedd ystod o brosiectau ymyrryd ar gael i blant a phobl ifanc sy'n wynebu risg o droseddu ac i'r rheiny a oedd wedi troseddu.

Roedd gwasanaethau iechyd meddwl ac iechyd rhyw a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau i blant a phobl ifanc yn dda, yn yr un modd ag yr oedd y gefnogaeth a ddarparwyd i'r rheiny a oedd angen help gyda'u cyflogaeth, eu hyfforddiant a'u haddysg, cefnogaeth a oedd yn cynnwys cyflwyno'n arloesol diwtor

llythrennedd a rhifedd arbenigol. Er nad oedd yr holl blant a phobl ifanc yn cael y gofyniad gofynnol, sef 25 awr yr wythnos o addysg a bennwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.

Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sy'n destun Gorchmynion Carcharu a Hyfforddi

Ym mhob achos roedd y rheolwr achos yn cymryd rhan weithgar mewn cynllunio ac adolygu dedfrydau, ac yn cyfrannu at y cynllun hyfforddi terfynol. Roedd rhai enghreifftiau da o gydweithio da rhwng y gweithiwr cefnogi addysg yn y TTI a'r Ymgynghorwyr Gyrfaoedd yn y sefydliad diogel, a oedd yn sicrhau bod darpariaethau addas yn cael eu gwneud ar gyfer yr adeg pan fyddai plant a phobl ifanc yn dychwelyd i'r gymuned.

Fodd bynnag, nid oedd y TTI a'r sefydliad diogel bob amser yn cydweithio i fynd i'r afael ag anghenion iechyd plant a phobl ifanc yn ystod y rhan o'u dedfryd yn y ddalfa.

Dioddefwyr a chyfiawnder adferol

Dyma faes datblygol o waith y TTI. Tra bod gwaith arloesol o ran cyfryngu dioddefwr-troseddwr a chyfiawnder adferol mewn ysgolion yn digwydd, nid oedd digon o adnoddau ar gyfer gwneud iawn ac felly nid oedd ar gael yn rhwydd.

NODIADAU I OLYGYDDION

1. Cynhaliwyd yr arolygiad o Dîm Troseddau Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr ym mis Hydref 2007
2. Mae gan Ben-y-bont ar Ogwr boblogaeth o 128,645 yn ôl yr hyn a fesurwyd yng Nghyfrifiad 2001, 10.8% ohoni rhwng 10 a 17 mlwydd oed. Roedd hyn ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr, sef 10.4%
3. Mae naw arolygiaeth yn cynnal Arolygiadau Timau Troseddau Ieuenctid. Y rhain yw'r Comisiwn Arolygu Gofal Cymdeithasol, Estyn (Arolygiaeth EM dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru), Arolygiaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, y Comisiwn Gofal Iechyd, Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM, Arolygiaeth Carchardai EM, Arolygiaeth Prawf EM a'r Swyddfa dros Safonau mewn Addysgu (Ofsted).
4. Dechreuodd y rhaglen arolygu TTIau ym Mehefin 2003. Mae pob un o'r 157 TTI yng Nghymru a Lloegr yn cael eu harolygu dros gylch pump i chwe blynedd.
5. Datblygwyd meini prawf arolygu cynhwysfawr i gwmpasu trydydd cam y rhaglen arolygu, gan ganolbwyntio ar:
   - reolaeth
   - gwaith yn y llysoedd
   - gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned
   - gwaith gyda phlant a phobl ifanc sy'n destun Gorchmynion Carcharu a Hyfforddi
   - dioddefwyr a chyfiawnder adferol.